menter fachwen

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

Menter Fachwen NEWS - Ebrill / April 2019

Annwyl Gyfeillion

Mae cyfnod hynod o brysur o'm blaenau y misoedd nesaf ac ein gobaith yw y byddwn yn gallu gadael i chi wybod am rhagor o brosiectau newydd yn y dyfodol agos. Mae hyd yn oed cystadleuaeth gennym y mis yma gyda gwobrwyon gwerth mwy na £50. Gweler y manylion isod. Amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau ar y gweill ar hyn o bryd ac heb oedi rhagor dyma Cylchlythyr Mis Ebrill. Gyda cymaint o bethau dwi'n sicr o danfon rhagor o e-byst i'ch atgoffa o dro i dro. Byddaf i ffwrdd yn rhoi sgyrsiau mewn cymdeithasau Celtaidd yn America o Ebrill 23ain am gyfnod. Dwi'n sicr o danfon lluniau ac adroddiadau i chi ar tudalennau FACEBOOK 'Cerdded a Darganfod' a 'Menter Fachwen'.

Dyma digwyddiadau'r mis:

TEITHIAU CERDDED

MERCHER 3 EBRILL 10.30yb
Y GOGARTH – HANES HYNAFOL – (tua 3.5 milltir)
gyda Martin Davies 'Ardal'
CYCHWYN: MAES PARCIO, FFORDD ST.TUDNO, Y GOGARTH LL30 2XF.
CYFEIRNOD GRID: SH 76915 83560 (Gweler map)
CYMEDROL, GYDA YCHYDIG O LLWYBRAU BRYNIOG. SGIDIAU CERDDED.
YDI – MAE O'N ÔL. YMDDIHEURIADAU AM Y JOCS GWAEL O FLAEN LLAW. MAE'N BOSIB Y BYDD HI YN WYNTOG AR Y GOGARTH – A BYDD DIGON O WYNT POETH YN DOD ALLAN O CEG MARTIN HEFYD!!!!!!

GWENER 12 EBRILL 2.00yp
CYFRES HANES CHWAREL DINORWIG (TAITH 1 o 6)*
ALLT DDU: CYN Y CHWAREL A'R CHWARELI CYNNAR (1½ milltir)
CYCHWYN: ALLT DDU, DINORWIG
CYFEIRNOD GRID: SH 59032 61078
EITHA HAWDD. SGIDIAU CERDDED.
*Dyma cychwyn cyfres o deithiau dros y misoedd nesaf sydd yn olrhain hanes Chwarel Dinorwig o'r cychwyn tan ei ddiwedd – a hithau'n 50 mlynedd ers cau'r chwarel. Dros y misoedd byddwn hefyd yn crwydro trwy'r chwarel ei hyn, darganfod hanes Gilfach Ddu, crwydro'r rheilffordd o Penscoins, cerdded a darganfod Marchlyn ac adrodd hanes y cau yn 1969.

DYDD LLUN 15 EBRILL A DYDD MAWRTH 16 EBRILL
TEITHIAU CERDDED A 'AMGUEDDFA POP-YP' DEINIOLEN (AR Y CŶD A 'STORIEL')
BYDD ARDDANGOSFA O HEN LUNIAU AC YCHYDIG HANESION DEINIOLEN A CLWT Y BONT YN CAFFI EBs, DEINIOLEN YN STOD ORIAU AGOR Y CAFFI AR Y 15ed A 16ed O EBRILL (10-2.30). CROESO CYNNES I BAWB.

I GYD-FYND A'R 'AMGUEDDFA POP-YP' RYDYM YN TREFNU DAU TAITH GERDDED, SEF:

LLUN 15 EBRILL 1.30yp
TAITH GERDDED FFOTOGRAFFAU HANES DEINIOLEN (TUA 1 MILLTIR)
CYCHWYN: CAFFI EBs.
Byddwn yn olrhain lleoliadau hen luniau o'r pentref. Hefyd, dewch a'g unrhyw gamera (neu camera-ffon) gyda chi. Hoffwn i ni fynd ati yn ystod y daith i dynnu lluniau o'r pentref fel y mae heddiw (byddent yn archif eu hunain mewn blynyddoedd i ddod). Does dim angen unrhyw brofiad o tynnu lluniau o gwbl . Neu os oes gennych gamera o unrhyw math hoffwch dysgu rhagor o sut ei ddefnyddio – dewch a fo! Croeso cynnes i bawb am hwyl a hanesion.

MAWRTH 16 EBRILL 1.30yp
TAITH GERDDED I CLWT Y BONT (TUA 1½ MILLTIR)
CYCHWYN: CAFFI EBs.
Byddwn yn edrych ar hanes Clwt y Bont o'r Oesoedd Canol at oes y chwarel.

CERDDED NORDIG GYDA CAROLINE MONCRIEFF

Mi adawai chi wybod am y dyddiau,amseroedd a lleoliadau maes o law.

ARDDANGOSFA

HANES YR IDDEWON YM MANGOR
YN Y GALERI YN CANOLFAN SIOPA DEINIOL, BANGOR.
AR AGOR TAN EBRILL 26ain
Dewch i weld canlyniadau ein holl ymchwil i hanes anhygoel yr Iddewon ym Mangor o'r Oesoedd Canol ymlen. Mae'r mapiau ar gael yno hefyd ac manylion am sut i lawrlwytho fersiwn 'Ap' y map a'r arddangosfa. Croeso cynnes i bawb. Am ddim.

CYSTADLEUAETH

CYFLE I ENNILL GWOBRWYON GWERTH £50

I ddathlu cyhoeddi ein map (ac 'ap') newydd, 'HANES YR IDDEWON YM MANGOR' (ar y cyd a'r Brifysgol ym Mangor), rydym wedi trefnu cystadleuaeth Limrig. Mae hyn oherwydd dros 100 mlynedd yn ol, roedd Iddew dysgodd Cymraeg o'r enw Joseph Bolloten o Fangor yn trefnu cystadleuthau Limrigau yn y wasg Cymraeg (gyda gwobrwyon hael iawn ganddo). Rydym wedi darganfod nifer o'r limrigau gwreiddiol (yn cynnwys yr un isod) ac nawr, dros 100 mlynedd yn ddiweddarach, rydym wedi trefnu cystadleuaeth i chi orffen y Limerig gyda gwobr gwerth dros £50 i'r enillydd:
Eich tasg yw i orffen y Limerig isod.

'Fu'rioed y fath helynt yng Nghymru,
Mae pawb yn y wlad wedi d'rysu;
O Fynwy i Fon,
Lledaenodd y sôn,
…….'

Danfonwch eich cynigion drwy e-bost i 'garethroberts754@yahaoo.co.uk' neu postiwch eich cynnig i Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen, Tŷ Llundain, Cwm y Glo, Caernarfon Gwynedd, LL55 4EU erbyn dydd Gwener, 3ydd o Fai 2019.
Bydd y Limerig gorau yn ennill Tocyn Llyfrau o 'Na-Nog', copi o'r llyfr 'The Jews of Wales:A History' gan Cai Parry-Jones a hamper o gynnyrch Menter Fachwen. Bob lwc!

YMWELIADAU A CHYMDEITHASAU

Cofiwch y byddwn yn rhoi sgyrsiau i lwyth o gymdeithasau, ysgolion ac ati rownd y flyddyn. Byddwn hefyd yn derbyn ceisiadau gan cymdeithasau i fynd a bobol am dro. Er enghraifft, o fewn y wythnosau nesaf byddwn yn mynd a Cymdeithas Hanes Beddgelert am dro o amgylch Cwm y Glo a plant Ysgol Tregarth am dro i darganfod hanes y pentref. Cysylltwch os ydych ffansio rhywbeth tebyg i'ch cymdeithas neu ysgol. Byddaf nol yn y gwaith ar Fai 7ed. Yn Mis Mai cewch manylion yr ail daith yng nghyfres dathlu cau chwarel Dinorwig, teithiau cerdded eraill, y diweddaraf gyda prosiect RAF Llandwrog, cwrs y byddwn yn cynnal i'r W.I. ym Mhlas Tan y Bwlch a llawer mwy.

Diolch i chi gyd am eich holl gefnogaeth. Hwyl am y tro.
Gareth

##########

MENTER FACHWEN WALK AND DISCOVER PROJECT

APRIL 2019 NEWSLETTER

Dear Friends

There's a very busy period ahead of us here at The Walk and Discover Project over the next few months. We are in negotiations for new projects and hopefully we'll have news of those in the not too distant future. April is going to be very busy so without further delay, here's the Newsletter. Just to remind you that I will be away from the 23rd of April until early May giving talks in some far flung foreign land – I'm sure to post some reports and images from my travels on 'Menter Fachwen's and 'The Walk and Discover' FACEBOOK pages.

WALKS

WEDNESDAY 3 APRIL 10.30am
THE GREAT ORME – ANCIENT DISCOVERIES (3.5 miles approx)
WITH MARTIN DAVIES, ARDAL
START: CAR PARK, ST.TUDNO'S RD, GREAT ORME, LLANDUDNO LL30 2XF
MAP REFERENCE: SH 76915 83560 (SEE MAP)
MODERATE, HILLY PATHS IN PLACES. WALKING SHOES.
YES....HE'S BACK!!!! REMEMBER – THE ORME MAY BE QUITE WINDY SO BE PREPARED. CHANCES ARE THERE'LL BE A LOT OF HOT AIR COMING OUT OF MARTIN'S MOUTH AS WELL. APOLOGIES IN ADVANCE FOR HIS BAD JOKES AND PUNS.

FRIDAY 12 APRIL 2.00pm
THE HISTORY OF DINORWIC QUARRY SERIES (WALK 1 of 6)*
ALLT DDU: BEFORE THE QUARRY AND THE EARLY DAYS OF SLATE (1½ miles)
START: ALLT DDU, DINORWIG
GRID REFERENCE: SH 59032 61078
RELATIVELY EASY. WALKING SHOES.
* This is the first of a series of 6 walks over the next few months retracing the history of Dinorwig Quarry in the year that marks 50 years since its' closure. Over the next few months we will also be traipsing through the qurry itself, discovering Gilfach Ddu, retracing the qurry railway from Penscoins, walking up Marchlyn and telling the story of the closure in 1969.

MONDAY 15 AND TUESDAY 16 APRIL
TWO WALKS AND A 'POP-UP MUSEUM' IN DEINIOLEN (IN CONJUBCTION WITH 'STORIEL')
THERE WILL BE AN EXHIBITION OF OLD PHOTOGRAPHS AND A LITTLE HISTORY OF DEINIOLEN AND CLWT Y BONT IN EBs CAFÉ, DEINIOLEN ON BOTH DAYS (15th and 16th APRIL) DURING THE CAFÉ'S USUAL OPENING HOURS (10-2.30). A WARM WELCOME TO ALL.

TO MARK THE EVENT WE ARE ALSO HAVE TWO WALKS ARRANGED:

MONDAY 15 APRIL 1.30pm
A PHOTOGRAPHIC JOURNEY THROUGH THE HISTORY OF DEINIOLEN (ca. 1 mile)
START: EBs CAFÉ.
We will be re-discovering the locations of old photographs of Deiniolen. You are welcome to bring any camera that you may have (even if it is on your phones). As part of the walk I will be encouraging you to take photographs of the village as it is today which will be a valuable archive in the future. Don't worry, you don't need any experience of taking pictures – just come along for a laugh. A warm welcome to all.

TUESDAY 16 APRIL 1.30pm
A WALK TO CLWT Y BONT (ca. 1½ miles)
START: EBs CAFÉ, DEINIOLEN.
A journey through the history of Clwt y Bont from the Medieval to the age of the quarry.

NORDIC WALKING WITH CAROLINE MONCRIEFF

I will let you know of dates, times and locations closer to the time.

EXHIBITION

A HISTORY OF THE JEWS IN BANGOR
AT THE GALLERY IN THE DEINIOL SHOPPING CENTRE, BANGOR
OPEN DAILY UNTIL APRIL 26th
Come and see the results of our research into the fascinating histories of the Jews in Bangor from medieval times to the Second World War. The maps will be available there as well as details of how to download the 'App' version. The exhibition is free. A warm welcome to all.

TALKS AND PRESENTATIONS

Just to remind you that we have a very busy schedule of giving talks to community groups, schools etc all year round. We also accept invites to take groups on walks. For example within the next couple of weeks we are welcoming the Beddgelert History Group to Cwm y Glo for a walk around the history of the village and are taking the pupils of Tregarth school on a history walk around the village. Get in touch if your society, community group or school would like one of our presentations or walks.

I will be back at work from foreign lands on May 7th. In May you can have details of the second walk in the Dinorwic Quarry series, details of other walks and events, the latest on the RAF Llandwrog project, news of a course we are running in Plas Tan y Bwlch and much more.

As ever, thank you all for your excellent support.

Gareth